PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 158 Rhif 23 Mehefin 5, 2025 50c.

## PROTEST Y SOSBENNI GWAG

Mewn undod â'r dioddefaint yn Gaza, fe gynhaliwyd gwylnos y 'sosbenni gwag' y tu allan i ganolfannau'r BBC yng Nghymru ar ddydd Sadwrn, 24 Mai. Trefnwyd yr un yng Nghaerfyrddin gan y Parchg Guto Prys ap Gwynfor (*gyda'r corn siarad*), ac fe ddaeth criw da ynghyd gyda'u sosbenni.



'Mewn tosturi dwfn ac undod â phobl ddioddefus Gaza rydym yn sefyll mewn gwylnos dawel gyda sosbenni gwag,' meddai Guto. 'Mae'r weithred hon yn atgoffa rhywun o'r lluniau o blant trallodus, a phlant newynog yn dal eu sosbenni gwag allan yn daer o fewn torfeydd o bobl sy'n gobeithio cael bwyd ar gyfer eu un pryd o'r dydd, sy'n aflonyddu ar ein sgriniau. Mae'n adlewyrchu protest gan ddinasyddion Israel ar ddiwrnod coffa'r holocost lle buont yn sefyll mewn llinell hir wedi'u gwisgo mewn du ac yn dawel yn dal eu sosbenni gwag fel protest am newynu poblogaeth Gaza.'



### Stopiwch newynu Gaza

**BBC:** Stopiwch ein llwgu o wirionedd yr hil-laddiad hwn a chyfraniad y DU iddo

**Llywodraeth y Deyrnas Unedig:** Stopiwch newynu Palesteina ac Israel o heddwch a chyfiawnder. Stopiwch hwyluso hil-laddiad trwy gyflenwi arfau a chudd-wybodaeth i lywodraeth asgell dde eithafol Israel. Stopiwch newynu pobl y DU o'n dynoliaeth trwy ein gwneud yn gyfranwyr at y derfysgaeth hon

**Llywodraeth Cymru:** Rydym yn galw arnoch i godi llais ar frys ac yn uchel am atal newyn a glanhau ethnig a thros Heddwch Cyfiawn i Balestina. Mae hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni fod yn Genedl Fyd-eang Gyfrifol

### CYNNIG GAN GYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN I GYFARFODYDD BLYNYDDOL YR UNDEB YN NANT GWRTHEYRN

Cafodd y Cynnig hwn ei drafod a'i dderbyn yn unfrydol gan gwrdd chwarter y cyfundeb yng Nghapel Newydd Llanybri ar bnawn dydd Iau, 8 Mai.

*Rydym yn galw ar ein llywodraeth yma yng Nghymru i roi pwysau ar lywodraeth y wladwriaeth hon, sef y Deyrnas Unedig, i atal rhag cefnogi Llywodraeth Israel yn y rhyfel yn erbyn y Palestiniaid.*

*Cywilyddiwn o feddwl fod Llywodraeth y DU, yn arbennig y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Tramor, yn euog o droseddau rhyfel drwy hyrwyddo hil-laddiad a glanhau ethnig ym Mhalesteina, sef Gaza a'r Lan Orllewinol.*

*Galwn ar i Lywodraeth y Deyrnas Unedig beidio â chaniatáu i'w lluoedd arfog gydweithio â llywodraeth lygredig Israel a'r IDF (lluoedd milwrol Israel) o safle'r llu awyr ar ynys Cyprus.*

Cynigwyd gan y Parchg Guto Prys ap Gwynfor, ac eiliwyd gan y Parchg Tom Defis. Dywedodd Guto fod Israel yn ddigon parod i roi cyhoeddusrwydd i'r hil-laddiad hwn, a bod neb yn sefyll i fyny yn erbyn yr hyn sy'n digwydd. 'Os na wnawn ni ddangos ein gwrthwynebiad a gwneud rhywbeth, mae'n ymddangos ein bod yn cefnogi'r hyn sy'n digwydd,' meddai.

### Eisteddfod Dur a Môr

Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2025 a da iawn pob plentyn a pherson ifanc am gystadlu yn Eisteddfod wych Dur a Môr.

### Gweddi dros blant Gaza

Dad trugarog, gweddïwn dros holl blant
y byd, ond yn enwedig dros blant Gaza.

Gweddïwn am ryddid i blant Gaza
gael rhedeg a neidio, chwerthin a chwarae
heb ofn y fwled a'r dryll.

Gweddïwn dros blant ym mhob man
sydd â'r hawl i ddiogelwch
a chysgod oddi mewn i'w cartrefi eu hunain,
ac nid i golli eu cartrefi neu gael
eu lladd oddi mewn iddynt.

Gweddïwn dros blant sy'n derbyn
triniaeth mewn ysbytai
yn dilyn niwed gan fomiau, iddynt
dderbyn y driniaeth y maent yn eu haeddu,
ac nid i weld eu hysbytai yn cael eu bomio.

Gweddïwn dros hawl pob plentyn
i gael teulu gweithgar sy'n mynd
ynglŷn â'u dyletswyddau heb ofni
troedio y tu allan i ddrws
y tŷ oherwydd terfysg a thrais.


Gweddïwn dros hawl pob plentyn
i dyfu i fyny heb y trawma a achoswyd gan
ryfel yn ystod blynyddoedd eu plentyndod.

Gweddïwn dros bob plentyn a fydd
yn tyfu i fyny heb riant,
neu fodryb neu ewythr, brawd na chwaer.

Gweddïwn dros blant Gaza.
Gweddïwn am gyfiawnder.
Gweddïwn am heddwch

Yn enw Iesu Grist,
Amen

# Gwleidyddiaeth ac Iesu – Rhan 3



Roedd Iesu wedi gorchymyn iddynt 'eistedd yn gwmnïoedd o ryw hanner cant yr un' (Luc 9:14), geiriau sy'n gallu golygu nid mewn grwpiau i fwynhau picnic ond mewn rhengoedd milwrol. Yn y weithred nesaf yn y stori, rhannu'r bara, gellir ei ddehongli mewn modd sacramentaidd. Roedd Ioan yn bwriadu i'r weithred o rannu'r bara atgoffa darllenwyr ei efengyl o wahoddiad Iesu yn y Swper Olaf, gyda'r weithred yn cyfeirio'n gynnil at arwyddocâd ewcharistaidd y swpera. Dehongliad diddorol. Wedi'r weithred o rannu'r bara, o weld hyn, wedi gweld yr arwydd, mae Ioan yn ychwanegu fod y bobl am gipio Iesu i'w wneud yn frenin (Ioan 6:14–15). Ond nid ildio iddynt wnaeth Iesu, ond sicrhau pellter rhyngddo ef a hwy. Aeth i'r mynydd i fod ar ei ben ei hun, ac roedd wedi gofalu bod ei ddisgyblion, a rhai ohonynt efallai'n rhannu gobeithion y bobl, yn hwylio oddi yno a chroesi'r môr i Gapernaum, yn ddigon pell oddi wrth yr eithafwyr. Ac wedi ymwrthod yn fwriadol â chodi mewn gwrthryfel, pa ryfedd ein bod yn darllen yn fuan wedyn am wrthgilio oddi wrth Iesu. 'O'r amser hwnnw trodd llawer o'i ddisgyblion yn eu holau a pheidio mwyach â mynd o gwmpas gydag ef.' (Ioan 6:66).

### Y Meseia

Wedi ymwrthod â'r pwysau i wrthryfela yn erbyn Rhufain enciliodd Iesu gyda'i ddisgyblion i'r gogledd o Galilea i barthau Cesarea Philipi ac wrth holi ei ddisgyblion am bwy yr oedd pobl yn meddwl yr ydoedd, gwnaeth yn amlwg iddynt ei fod yn gweld ei hunan fel y Crist, y Meseia addawedig; ond nid fel Meseia Selotaidd yn arwain gwrthryfel yn erbyn y Rhufeiniaid, ond fel gwas i'w Dad nefol, ac os oedd i wireddu ei alwad nefol bod yna gwpan marwolaeth yn cael ei roi iddo yr oedd i'w yfed.

### Ni fynnent wrando

Yn fuan wedyn mae'n cychwyn ar ei olaf daith i Jerwsalem. Hyd at ei groeshoelio ar achub ei bobl a'i genedl yr oedd bryd Iesu, eu gwaredu oddi wrth y ddamnedigaeth a'r dinistr oedd yn eu haros wrth iddynt fynnu mynd benben â Rhufain. Ond er ceisio eu perswadio i newid eu bwriad a'u cwrs ni fynnent wrando. Droeon, mewn dameg ar ôl dameg fe'u rhybuddiodd, ond roedd y cwbl yn ofer – yr oeddent yn medru dehongli arwyddion y tywydd ond ddim yn medru dehongli'r arwyddion politicaidd; yr oeddent fel y sawl ar ei ffordd i lys barn yn gwrthod cymodi gyda'i wrthwynebwr; yr oeddent fel teithwyr ar eu taith cyn machlud haul ac angen iddynt weithredu'n frysiog tra roedd yn olau dydd cyn dyfod y tywyllwch; a dywedodd fod angen iddynt edifarhau, eto tasen nhw ddim yn edifarhau y byddai'n darfod amdanynt fel rhai a welodd ddiwedd disymwth. Ond ni fynnent wrando.


### Mewn Heddwch

Mae ymdaith fuddugoliaethus Iesu mewn i Jerwsalem yn ddigon hysbys i ni. Daeth mewn i'r ddinas mewn dull symbolaidd yn marchogaeth ar ebol asyn, ac nid yn marchogaeth ar farch. Roedd yn datgan ei fod yn dod i'r ddinas mewn heddwch a bod ei awdurdod yn gorffwys nid ar rym militaraidd a ffordd y cledd ond ar alwad Duw i sefydlu teyrnasiad o heddwch rhyngwladol, yn unol â'r broffwydoliaeth gan Sechareia am frenin 'fyddai'n siarad heddwch â'r cenhedloedd a'i lywodraeth yn ymestyn o fôr i fôr, ac o afon Ewffrates hyd derfynau'r ddaear.' (Sechareia 9:9–10). Ym monllefau'r bobl a'i croesawodd roedd disgwyliadau cenedlaetholgar milwriaethus yn dyheu am gael gwared ar iau gorthrymus Rhufain, 'Hosanna i Fab Dafydd ... bendigedig yw'r deyrnas sy'n dod, teyrnas ein tad Dafydd.' Yn ei osgo wrth ddod mewn i Jerwsalem yn null proffwydi'r Hen Destament, yn actio ei ran, roedd Iesu'n herio pobl Jerwsalem ac yn apelio arnynt i ailfeddwl ynghylch eu gobeithion fel cenedl. Ond yn drist iawn rhoesant eu gobeithion mewn ennill eu rhyddid drwy frwydr waedlyd yn erbyn eu gormeswyr Rhufeinig. Ai dyma sy'n egluro yr 'enigma' pam fod y dyrfa wedi cefnu ar Iesu erbyn diwedd yr Wythnos Fawr cyn ei groeshoelio, er mor boblogaidd oedd Iesu wedi iddo lanhau'r deml? Wylodd Iesu dros y ddinas am ei bod yn gwrthod ei genadwri am gariad a ffordd tangnefedd a phroffwydodd am y dinistr fyddai'n ei haros: 'fe'th ddymchwelant hyd at dy seiliau, ti a'th blant o'th fewn; ni adawant faen ar faen ynot ti, oherwydd dy fod heb adnabod yr amser pan ymwelwyd â thi' (Luc 19:44); tynged ddifäol a ddaeth i ran Jerwsalem a'r genedl Iddewig yn 70 O.C.

*Bydd y rhan olaf o'r gyfres hon yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst.







Yr Adran Gydenwadol

MEHEFIN 5 2025 RHIF 223

# Eisteddfod y Dur a'r Môr ar Barc Margam




Wrth deithio ar hyd yr M4 yn ardal Port Talbot, mae'n debyg mai'r gweithfeydd dur yno sy'n denu'r sylw, gyda'r môr yn y pellter. Yn anffodus mae'r gweithfeydd hynny erbyn hyn yn segur, gyda phryder am ddyfodol swyddi yn y fro. Ond o edrych i'r cyfeiriad arall, ceir parc gwledig hyfryd, sef Parc Gwledig Margam, gyda thiroedd a choedwigoedd yn llawn ceirw, defaid a gwartheg, heb sôn am ambell alpaca. O fewn y tir ceir castell gothig yr olwg, gydag orendy ac abaty - un wedi dymchwel ac un arall mewn cyflwr arbennig iawn ac mewn defnydd cyson. Yr abaty hwn bu'n gartref i wasanaeth blynyddol yr Urdd ar gychwyn yr Eisteddfod eleni. Bu'n braf cael ymuno gyda'r gynulleidfa luosog, a chael hyd i'r 2 gadair wag olaf yno, er mwyn cael addoli gyda chynulleidfa o blant ac ieuenctid o dan arweiniad y Parchg Rhys Locke. Cafwyd nifer o eitemau gan blant Ysgolion Sul y fro, a datganiad cofiadwy o gerdd 'Y Tangnefeddwyr' yn cael ei chanu gan griw o bobl ifanc. Rhys oedd yn cyflwyno'r neges, gan ein hatgoffa o arwyddair gwreiddiol yr Urdd, sef bod yn ffyddlon a gwasanaethu Cymru, Cyd-ddyn a Christ. Braf oedd gweld yr abaty o dan ei sang, gyda chynulleidfa o bob oed wedi dod ynghyd i addoli a nodi cychwyn ar weithgaredd yr wythnos.

Ar faes yr Urdd roedd Cytûn a Chyngor Ysgolion Sul yno efo'r babell arferol, a braf iawn oedd medru cydweithio efo criw o wirfoddolwyr ymroddedig gydol yr wythnos. Mae ein diolch yn arbennig i Mr Gareth Richards o Gyfundeb Gorllewin Morgannwg am ei holl waith yn cywain pob dim at ei gilydd, gan drefnu byrddau a chadeiriau a tua 40 o wirfoddolwyr i'n helpu ar y stondin. Bob dydd roedd y rhain yn cyrraedd efo'i doniau arbennig - creu calonnau gweddi, paentio wyneb, her taflu pêl, creu breichledau caredigrwydd, paentio ewinedd, taflenni crefft a lliwio a llawer gweithgaredd arall. Cafwyd cwis amgylcheddol gan Delyth Higgins o ARocha a braf hefyd oedd cael cwmni Siân Wyn Rees o Gymdeithas y Beibl. Bu cyfle i arddangos bywiogrwydd yr eglwysi lleol mewn cyfres o 8 panel yn dangos gweithgaredd o fewn yr eglwysi hynny, gyda nifer o blant yn troi mewn i ddangos eu lluniau i rieni a ffrindiau. Roedd digon o fferins ar gael i'r plant, a chyfle i wneud ambell baned a theisen gri i'r selogion. Un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd cael lansio cân newydd yng nghwmni Martyn Geraint a disgyblion rhai o'r ysgolion lleol. Diolch i griw Cymorth Cristnogol am drefnu hyn ar ein stondin. Mae'r gân ar gael i'w lawr lwytho o dudalen Facebook Cymorth Cristnogol.

Cafwyd Eisteddfod hynod lwyddiannus, er gwaetha'r tywydd, a diolch am gyfle i dystio a rhannu'r Newyddion Da am Iesu ar y maes, gan rannu copïau o Efengyl Ioan beibl.net i lawer. Ymhen y flwyddyn byddwn eto ar faes y Sioe ym Môn ac yn disgwyl ymlaen am gyfle i gydweithio gyda phobl yno.

*Aled Davies*

# Llongyfarch aelodau newydd i'r Orsedd




Ar fore Llun 2 Mehefin cyhoeddwyd enwau'r rheini fydd yn cael eu derbyn i'r Orsedd drwy anrhydedd yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam eleni. Llongyfarchwn bawb yn wresog iawn, gan ddiolch am eu gwaith o fewn Cymru. Yn eu plith y mae llawer sy'n weithgar ym mywyd yr eglwysi, a dymunwn yn dda i bawb wrth iddynt gael eu derbyn i'r orsedd eleni. Mae'r anrhydeddau hyn, a gyflwynir yn flynyddol, yn gyfle i roi clod i unigolion o bob rhan o'r wlad am eu cyfraniad arbennig i Gymru, ein hiaith a'u cymunedau lleol ar hyd a lled Cymru. Braf yw cael cydnabod y bobl hyn drwy drefn anrhydeddau'r Orsedd, a'u hurddo ar Faes yr Eisteddfod ar gyrion dinas Wrecsam, fore Llun 4 Awst a bore Gwener 8 Awst.

Ymhlith yr enwau eleni mae nifer yn cael eu cydnabod am eu cyfraniad i fywyd crefyddol ac ysbrydol Cymru. Llongyfarchwn y Parch Gethin Rhys sydd newydd ymddeol fel Swyddog Polisi Cytûn. Wrth ei gyflwyno i'r orsedd, dywedwyd: Mae Gethin Rhys, Caerdydd, wedi gwasanaethu Cymru a'i chrefydd, ei gwleidyddiaeth a'i chymdeithas gyda'i graffter meddwl a chyda'i ymroddiad i weld cymuned gyfiawn ddiragfarn yn ein gwlad. Yn ei swydd fel swyddog polisi Cytûn mae wedi cyflwyno tystiolaeth ac awgrymiadau i bwyllgorau amrywiol y Llywodraeth a'r enwadau, i eglwysi ac unigolion er mwyn gwella polisïau a pherthnasau. Yn ystod y pandemig bu'n allweddol yn trafod canllawiau gyda'r Llywodraeth ac yn eu cyflwyno i eglwysi a chymunedau. Bu Gethin hefyd yn gwasanaethu ar Gyngor Rhyng Ffydd Cymru, corff hanfodol i hybu goddefgarwch a dealltwriaeth rhwng cymunedau yng Nghymru. Mae'n ddiwinydd craff, yn wleidydd amyneddgar ond penderfynol ac yn gymdeithasegwr tyner a deallus.





Gethin Rhys



Bill Davies



Jane Harries



John Morgans

Llongyfarchwn Jane Harries hefyd, sydd wedi gweithredu am flynyddoedd fel Ysgrifennydd Cymdeithas y Cymod yng Nghymru. Wrth ei chyflwyno, dywedwyd: Mae Jane Harries, Pen-y-bont ar Ogwr, yn ymgyrchydd dros heddwch a chyfiawnder, ac wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o adeiladu Cymru fel cenedl heddwch. Bu'n ysgrifennydd Cymdeithas y Cymod ac mae wedi cefnogi pobl ifanc i ddatblygu neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd. Bu hefyd yn ysgrifennydd grŵp Menter Academi Heddwch Cymru. Fel aelod o'r Crynwyr, mae'n ffyddiog bod heddwch a chymodi'n bosibl yng Nghymru a'r tu hwnt, ac wedi cyfrannu'n sylweddol at adeiladu cymdeithas well. Mae'n dal i fod yn bositif yn wyneb trais ac anghyfiawnder, ac yn credu bod heddwch yn cychwyn ynom ni'n hunain.

Hyfryd oedd gweld enw'r Parch John Morgans, Penrhys ar y rhestr hefyd, yn gydnabyddiaeth am ei waith arloesol fel gweinidog ar y stad honno yn y Rhondda. Wrth ei gyflwyno, dywedwyd: Mae John Morgans wedi cyfrannu'n helaeth i fywyd ecwmenaidd eglwysi Cymru drwy ei weinidogaeth gyfoethog, yn arbennig yng nghymuned Pen-rhys yn y Rhondda. Mae'n gredwr cryf mewn cyfiawnder cymdeithasol, a bu'n weithgar iawn ymhlith cymunedau cymoedd de Cymru yn ystod streic y glowyr. Pan oedd yn gymedrolwr i'r Eglwys Unedig Ddiwygiedig yng Nghymru, penderfynodd y teulu symud o'u cartref yng Nghaerdydd i dŷ cyngor ar ystâd Pen-rhys, er mwyn cefnogi'r gweinidog, a phan y'i penodwyd yn weinidog, aeth ati gyda'i wraig, Norah, i sefydlu Eglwys Unedig Llanfair. Mae wedi dysgu'r Gymraeg ac yn gefnogol i bob math o weithgareddau celfyddydol Cymraeg. Mae ei lyfr newydd sy'n cofnodi stori Penrhys yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg, 'Penrhys - y pentre ar y Bryn'.


Mae Mr Bill Davies, Caerdydd yn Gadeirydd Ymddiriedolwyr Undeb Bedyddwyr Cymru ac yn aelod o bwyllgor Cenn@d. Llongyfarchwn yntau hefyd - a diddorol yw sylwi bod 3 o gyn-selogion eglwys Emaus Bangor wedi ei anrhydeddu eleni, sef Bill Davies, Dewi Llwyd a Gwenllian Lansdown Davies. Wrth gael ei gyflwyno i'r orsedd dywedwyd: Yn wreiddiol o Borthmadog, mae Bill Davies, Caerdydd, wedi cefnogi eisteddfodau lleol a chenedlaethol ar hyd a lled Cymru dros y blynyddoedd. Bu'n ysgrifennydd cyffredinol Eisteddfod Bro Llandegfan am dros 20 mlynedd, yn gadeirydd Eisteddfod Môn, 2008, ac erbyn hyn mae'n aelod ac yn ymddiriedolwr o Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd, gan weithredu fel yr is-gadeirydd. Mae hefyd yn is-gadeirydd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Bu'n gweithio ym maes adnoddau dynol drwy gydol ei yrfa, a hynny ar draws Cymru, gwasanaethodd ar nifer o gyrff a sefydliadau yma, gan gynnwys Awdurdod S4C a Thribiwnlysoedd Cyflogaeth Cymru, ac mae'n parhau i weithredu fel cadeirydd ymddiriedolwyr Undeb Bedyddwyr Cymru.

Rydym yn ymwybodol bod nifer o bobl eraill ar y rhestr yn selogion mewn eglwysi ar hyd a lled Cymru - yn ddiaconiaid, blaenoriaid ac aelodau prysur. Llongyfarchwn bawb yn ddiwahân am yr anrhydedd ddaeth i'w rhan - a petai eglwys am yrru pwt atom yn llongyfarch aelod am eu derbyn i'r orsedd, byddem yn falch iawn o rannu'r newyddion hwnnw gyda darllenwyr Cenn@d.

*Aled Davies*

# *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 15: Defod a thynged**

**Llyfr y Pregethwr 8**

Mae wythfed bennod Llyfr y Pregethwr yn agor gyda dau gwestiwn rhethregol: "Pwy sy'n ddoeth go iawn? Pwy sy'n gallu esbonio pethau?" Yna, nodir effaith lesol doethineb ar olwg allanol dyn (8:1). Mae doethineb yn gwneud i 'wyneb rhywun ddisgleirio' ac yn trawsnewid ei wedd i fod yn fwy tirion. Yn y traddodiad Beiblaidd, mae wyneb disglair yn cyfleu ymddygiad rhadlon a thrugarog. 'Bydded Duw yn drugarog wrthym a'n bendithio, bydded llewyrch ei wyneb arnom' yw gweddi'r Salmydd yn Salm 67:1 (gw. hefyd 31:16; 80:3,7,19; Numeri 6:25).

**Defodau llys y brenin**

Yn yr adran nesaf mae'n trafod y brenin. Mae'r doethion yn ymwybodol o awdurdod y brenin a chynghorant bawb i osgoi ei dramgwyddo: "Fy mab, dylet ti barchu'r ARGLWYDD a'r brenin, a pheidio cadw cwmni'r rhai sy'n gwrthryfela. Yn sydyn bydd dinistr yn dod arnyn nhw; pwy ŵyr faint o ddrwg allan nhw ei achosi?" (Diarhebion 24:21–2; BCND)

Y mae'r fath 'awdurdod yng ngair y brenin' fel na fedr neb ei herio drwy ofyn iddo egluro'r hyn a wna (8:4). Dyletswydd pawb yw ufuddhau iddo a chadw ei orchmynion yn ddigwestiwn 'o achos y llw i Dduw' (8:2). Ond 'o achos *llw Duw*' sydd yn yr Hebraeg gwreiddiol, h.y. y llw a wnaeth Duw ynglŷn â'r frenhiniaeth pan sefydlodd hi. Gwas Duw oedd y brenin a eneiniwyd i wneud ei ewyllys. Gall hyn olygu felly fod y sawl sydd ar yr orsedd yn hawlio parch am mai sefydliad dwyfol yw'r frenhiniaeth.

Adleisir hyn gan Paul wrth iddo annog yr eglwys yn Rhufain i 'ymostwng i'r awdurdodau' am eu bod 'wedi eu sefydlu gan Dduw'. Mae'r sawl sy'n eu gwrthsefyll yn 'gwrthwynebu sefydliad sydd o Dduw' ac 'yn sicr o dynnu barn arnynt eu hunain' (Rhufeiniaid 13:1–2).

Roedd y doethion yn Israel gynnar yn aelodau o'r llys brenhinol, felly roedd yn hanfodol eu bod yn gwybod sut i ymddwyn ym mhresenoldeb y brenin. 'Paid â rhuthro o'i wŷdd' (8:3) rhag iddo dybio fod rhyw anfadwaith ar droed. Dim ond i ti ofalu cadw ei orchmynion, byddi'n ddiogel.

Wedi iddo gynghori'r sawl sy'n gweithio i'r brenin, daw i'r casgliad digon digalon fod y dyfodol yn dywyll. Ni allwn wybod na rheoli beth a ddigwydd; 'Ni all neb reoli'r gwynt' na dewis dydd ei farw (8:8). Cyfieithiad o'r Hebraeg *rûach* yw 'gwynt', ond mae mwy nag un ystyr i'r gair. Gall hefyd olygu 'ysbryd' ac 'anadl'. Yn y cyd-destun, mae'n bosibl mai 'ysbryd', yn yr ystyr o *life force* neu *anadl einioes*, fyddai'r cyfieithiad mwyaf addas. Yr ergyd ganddo yw na allant newid y sefyllfa y maent ynddi; mae eu tynged wedi ei selio.

Daw'r Pregethwr â'i sylwadau ar y frenhiniaeth i ben drwy gydnabod fod y sawl sydd mewn awdurdod yn debygol o gamddefnyddio'i rym. Mae'n sylwi, fel y gwnaeth o'r blaen wrth weld y tlawd yn cael eu gorthrymu (gw. 5:8), fod y grymus 'yn arglwyddiaethu ar ei gymrodyr i beri niwed iddynt' (8:9).

**Tynged y da a'r drwg**

Nid yw'r Pregethwr yn gweld fod y drefn ddisgwyliedig o gosbi'r drygionus a gwobrwyo'r da yn ôl eu gweithredoedd yn digwydd. Yr hyn sy'n ei gorddi yma yw'r modd y mae'r drygionus yn ymddangos fel petaent yn llwyddiannus ac nad ydynt yn cael eu cosbi. Pa synnwyr sydd yn hynny? Mae cyfieithiad beibl.net yn gosod y gŵyn fel hyn:

"Yna gwelais bobl ddrwg yn cael angladd parchus. Roedden nhw'n arfer mynd a dod o'r lle sanctaidd, tra roedd y rhai yn y ddinas oedd wedi byw yn iawn yn cael eu hanghofio. Beth ydy'r pwynt? Os ydy drygioni ddim yn cael ei gosbi ar unwaith, mae pobl yn cael eu hannog i wneud drwg. Mae pechadur yn cyflawni'r un drwg ganwaith, ac yn dal i gael byw'n hir." (adn. 10–12)

Pwy, tybed, sydd dan y lach y tro hwn o beidio â gweithredu'n ddigon cyflym? Un ai'r brenin am fod mor aneffeithiol, neu efallai Dduw ei hun am ohirio'r ddedfryd. Pa ryfedd i'r awdur ddod i'r casgliad fod 'hyn hefyd yn wagedd'.

Yna, mae'n ailystyried (8:12b–14), ar ôl cael myll am y drygionus, gan ddweud, yn y pen draw, y byddai'n well ar y rhai sy'n parchu Duw ac y cosbir y drwg. Ond nid yw'n gallu gwneud pen na chynffon o fywyd. Mae'r hyn sy'n digwydd yn gwbl groes i'r hyn a ddylai ddigwydd – y cyfiawn yn dioddef a'r anghyfiawn yn llwyddo. Ac onid dyna ein teimladau ni ar brydiau wrth edrych ar y byd ac ymddygiad pobl tuag at ei gilydd?

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. Ar hyn o bryd rydym yn gweld cynnydd mewn awdurdod unbenaethol. Pam mae pobl mewn awdurdod yn camddefnyddio'u grym?
2. Ai democratiaeth yw'r ffordd fwyaf effeithiol o lywodraethu?
3. A all y Cristion gyfiawnhau anufudd-dod i'r awdurdodau sifil? (gw. Rhufeiniaid 13:1–2).




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i [www.gair.cymru](www.gair.cymru)

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 8 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau i ddathlu'r Sulgwyn yng nghwmni Beti Wyn James

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 8 Mehefin, am 12:00yp – Pentecost**
Oedfa dan ofal Jos Edwards, Blaenau Ffestiniog


# Pigion o'r cwrdd chwarter yn Llan-y-bri

Fe deithiodd 35 o gynrychiolwyr eglwysi Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin i'r Capel Newydd yn Llan-y-bri am 4 o'r gloch a 7 o'r gloch ar ddiwrnod hyfryd o wanwyn 8 Mai. Ar ôl i'r cadeirydd, Jean Lewis, groesawu pawb a diolch i aelodau Capel Newydd am y gwahoddiad, cafwyd darlleniad gan Helen Morgan a gweddi gan Janet Davies, Maureen Howells oedd yn cyfeilio.

- Derbyniwyd yn unfrydol gynnig am y brwydro yn Gaza gan y Parchg Guto Prys ap Gwynfor, a eiliwyd gan y Parchg Tom Defis, i'w roi fel penderfyniad gerbron Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb eleni (gweler tudalen flaen *Y Tyst*).
- Dymunwyd yn dda i'r Parchg Guto Llywelyn wrth iddo symud i ofalaeth yng Nghyfundeb Dwyrain Caerfyrddin.
- Hysbyswyd am Apêl Cymorth Cristnogol 2025 a rhannwyd adnoddau.
- Nodwyd fod y cyfundeb wedi cyfrannu £5,322 tuag at gyfanswm Apêl Ffynhonnau Byw o £71,000.
- Cafwyd llythyr gan Ysgrifennydd Cyffredinol a Llywydd yr Undeb yn diolch i Annalyn Davies am ei gwaith llawn egni a brwdfrydedd fel cadeirydd y Cyngor, cyn gorfod ymddiswyddo oherwydd afiechyd.
- Pwysleisiwyd yr angen am gael tystysgrif a hyfforddiant DBS cyfredol ar gyfer ymwneud â phobl fregus a phlant, ac i roi hyn ar agenda pob cwrdd diaconiaid a chwrdd eglwys.
- Adroddodd Alun Lenny, Swyddog Cyhoeddusrwydd y cyfundeb bod ein trafodaeth gyda Bwrdd Iechyd Hywel Dda am yr amser hir rhwng marwolaeth ac angladd (oherwydd rheolau meddygol newydd) wedi cael sylw yn y *Carmarthen Journal* a'r *Tyst*. Mae gwefan y cyfundeb wedi cael 27,400 o ymweliadau dros y 12 mis diwethaf.
- Derbyniwyd cyfansoddiad y cyfundeb wedi'i adolygu. Nodwyd pwysigrwydd dilyn y canllawiau.
- Cyhoeddwyd Cymanfa Ganu Coffa Gwynfor Evans yn Heol Awst, 8 Mehefin am 6 o'r gloch a chyfarfod Cymdeithas Chwiorydd Gorllewin Caerfyrddin yng nghapel Cana, 18 Mehefin, 7 o'r gloch gyda chasgliad tuag at The Teenage Cancer Trust.



## Ymweliad Llywydd yr Undeb



Yn dilyn te ardderchog yn y festri, fe agorwyd cyfarfod yr hwyr trwy ddarlleniad gan Gill Lewis a gweddi gan Wendy Evans, oedd hefyd yn cyfeilio, cyn i Jean Lewis gyflwyno'r siaradwr gwadd, sef y Parchg Jeff Williams, Llywydd Undeb yr Annibynwyr. Ei thema oedd 'Creu byd newydd: Sut mae sôn am gariad Duw yn y byd heddiw' gan dynnu o'i brofiad fel cyn Ysgrifennydd Cymorth Cristnogol yng Nghymru (1990–2013) wrth ymweld â rhai o wledydd tlawd y byd ar ran yr elusen. Soniodd am fod mewn dyffryn toreithiog a chyfoethog iawn yn Honduras, ond roedd popeth a dyfai'r gweithwyr yn eiddo i gwmni masnachol mawr. Felly, dyma aelodau'r eglwys leol yn hawlio darn o dir segur i dyfu cnydau ac wedyn codi tai yno. Ond daeth milwyr a llosgi'r tai a dinistrio'r cnydau, cyn mynd ag arweinwyr y grŵp 'nôl i'r gwersyll milwrol lle cawson nhw eu poenydio a'u lladd. Fe gafodd Jeff yr hanes gan ddyn ifanc 18 oed oedd yn arwain dosbarth Beiblaidd ger cofeb i ffrind iddo oedd wedi cael ei ladd gan y *death squads* am feiddio helpu pobol i dyfu eu bwyd eu hunain. Gofynnodd Jeff i'r dyn ifanc onid oedd ofn arno, y byddai'r *death squads* yn galw amdano yntau hefyd? Oedd, roedd ofn arno. Pam oedd e'n gwneud hyn 'te?' Atebodd y dyn ifanc trwy ddyfynnu'r proffwyd Eseia: 'Yr wyf i'n creu nefoedd newydd a daear newydd.' Dyna oedd ei freuddwyd.

### Gobaith mewn mannau tywyll

Cyfeiriodd Jeff at Weddi'r Arglwydd lle rydym yn gweddïo 'Deled dy Deyrnas.' Nodwyd mai yn y mannau mwyaf tywyll mae'r gobaith mwyaf tanbaid a'r rhai sydd heb ddim yw'r rhai mwyaf gobeithiol. Mae gweithio mewn rhai o wledydd tlotaf y byd yn cryfhau ffydd pobl. Mae partneriaid Cymorth Cristnogol yn rhannu yn y gwaith o greu daear newydd drwy gydweithio, er nad ydym bob amser yn llwyddo. Hanes Iesu yw sail ein gobaith ac ni ymdrechwn yn ofer. Cyfeiriodd at Ethiopia â'i newyn a'r ddaear yn ddiffrwyth, gyda'r trigolion bron yn gyfan gwbl ddibynnol ar eraill am fwyd. Enghraifft arall a roddwyd oedd Sierra Leone ble plannwyd reis ar ôl 10 mlynedd o ryfel erchyll a chafwyd cynhaeaf toreithiog, diolch i'r Duw a greodd ddaear newydd. Mae'r Deyrnas yn ein plith, ac yn werth brwydro amdani.

### Diolchiadau

Diolchodd y cadeirydd i Jeff Williams am ei neges angerddol, ac am ein hatgoffa o lefydd tlawd y byd, a hefyd am freuddwyd Duw am heddwch a chyfartaledd a chyfiawnder i bawb. Fe wnaeth y Parchg Beti-Wyn James ddiolch hefyd am anerchiad arbennig, llawn gobaith ac am waith Jeff yn ystod dwy flynedd ei lywyddiaeth; i swyddogion ac aelodau Capel Newydd am y paratoi manwl, y croeso, a'r rhannau arweiniol, y te blasus, ac i bawb a gymerodd ran yn ystod y dydd.

**Bydd y cwrdd chwarter nesa yng nghapel Pant-teg, ger Felin-wen, ar 11 Medi am 10.30 o'r gloch, gyda chyfarfod i aelodau eglwysi ardal Cothi am 1.30 o'r gloch.**

# YR YSBRYD GLÂN

Ers milenia roedd Duw wedi addo, trwy genedl yr Iddewon, waredwr i ddynoliaeth. Person fyddai'n dod â iachawdwriaeth a theyrnas Dduw yn ei grym i blith dynoliaeth. Dyma a ddigwyddodd yn yr Arglwydd Iesu. Paratôdd ffordd i gymodi pobl â Duw, pobl gyda'i gilydd gan ein galluogi i fyw a hyrwyddo Teyrnas Dduw sy'n llawn cariad, cyfiawnder a heddwch.

### Y Pentecost

Pan atgyfododd yr Iesu roedd y gwaith achubol wedi ei gwblhau, trwy ei fywyd perffaith, ei farwolaeth ar y groes a'i atgyfodiad. Rhan nesaf cynllun Duw oedd cymhwyso yr hyn wnaed yn yr Iesu i fywydau pobl a'r greadigaeth. (Y Drindod ddwyfol; y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân yn cydweithio.) A dyma oedd rhan o waith yr Ysbryd Glân. Cymryd gwaith achubol Iesu, ei esiampl a'i ddysgeidiaeth a'u cymhwyso i fywydau pobl. Pan dywalltwyd yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost gwnaeth yr Ysbryd y pedwar peth canlynol, ymhlith eraill. Creodd gymuned o bobl oedd yn credu yn Iesu; cadarnhaodd ffydd y rhai a gredodd; rhoddodd ddoniau arbennig iddynt ac fe'u gwnaeth yn gymuned Crist ganolog, garedig ac enillgar oedd yn ymestyn allan gyda'r newyddion da.

### Y Deyrnas yn tyfu

Wrth gwrs, am dair blynedd cyn i'r Ysbryd Glân ddod mewn grym, roedd Iesu wedi rhoi hyfforddiant dwys i griw bychan o ddeuddeg. Cynyddodd hynny i 72 ac yna i 120. Wedi'r Pentecost roedd miloedd yn dod i ffydd ac yn ddisgyblion i'r Iesu ac roedd yr Ysbryd yn eu helpu i ddeall ac ufuddhau i ddysgeidiaeth Iesu. Fel hyn roedd y Deyrnas a'r gymuned Gristnogol yn tyfu.

### Yr Ysbryd heddiw

Mae'r Ysbryd ar waith heddiw yn cymhwyso gwaith Iesu gan ei wneud yn ddealladwy i bobl. Efallai mai un ffordd ymlaen inni heddiw yw hyfforddi nifer bychan o bobl fydd yn barod i fynd allan a rhannu'r Efengyl. 'Ymddangosodd iddynt dafodau fel o dân yn ymrannu ac yn eistedd un ar bob un ohonynt; a llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân, a dechreusant lefaru â thafodau dieithr, fel yr oedd yr Ysbryd yn rhoi lleferydd iddynt.' (Act 2:3–4)



## GWEDDI'R PENTECOST

*Tyrd, Ysbryd Glân, i'n c'lonnau ni*
*A dod d'oleuni nefol.*

Tyrd megis Anadl Duw,
A'n bywiocáu.

Tyrd megis Tafodau Tân,
A'n puro'n llwyr.

Tyrd megis Dyfroedd Byw,
A'n diwallu.

Tyrd megis Gwynt Nerthol,
A'n cynhyrfu.

Tyrd megis Colomen Wen
Â'i hedd i ni.

Tyrd megis y Diddanydd Mwyn,
A'n cysuro.

Tyrd, Arglwydd, yn dy holl gyflawnder,
A llanw ni â'th ras. *Amen.*

(allan o *Mil a Mwy o Weddïau*, Edwin C. Lewis. Daw'r cwpled cyntaf o emyn Lladin yn perthyn i'r 9fed ganrif: *Veni, Creator Spiritus*

# Grŵp newydd Tots a Thonau Tylwyth Teg

Fel rhan o'n hymdrechion yn Saron Creunant i wasanaethu'r gymuned, mae ein capel wedi lansio grŵp newydd arbennig ar gyfer babanod rhwng 0 a 3 oed o'r enw Tots a Thonau Tylwyth Teg. Mae'n bleser gennym adrodd fod 14 o fabanod, ynghyd â'u rhieni a'u gwarcheidwaid, wedi mynychu'r sesiwn ddiweddaraf.

### Cyfleusterau modern

Gan ddefnyddio ein cyfleusterau newydd sbon yn y festri, rydym yn ceisio cynnig cartref croesawgar lle gall teuluoedd lewyrchu mewn awyrgylch o gerddoriaeth a llawenydd. Mae ein mannau newydd hefyd yn cynnwys toiledau modern, mannau newid babanod o safon uchel, a digon o le i ddod â phobl ynghyd mewn cymdeithas Gristnogol gan ddiolch am nawdd o'n cyfundeb ac o elusen Heb Ffin.

### Caru'n cymydog

Rydym yn gweld y grŵp hwn fel cyfle i gyflawni'r alwad i garu'n cymydog, yn ôl geiriau Iesu Grist: 'Byddwch â chariad at eich gilydd, fel y carais chwi, fel y bydd pawb yn gwybod mai fy nisgyblion ydych.' (Ioan 13:34–35). Drwy rannu cerddoriaeth, gwên, tost a sgwrs, rydym yn agor drysau ein capel i'r gymuned ehangach ac yn cyflwyno gobaith Duw drwy'r rhai lleiaf yn ein plith. Fel y mae'r Beibl yn ein hatgoffa, 'Plannwch yr hadau, a byddwch yn hael, oherwydd byddant yn tyfu yn ôl eu math eu hunain.' (Galarnad 9:6)

### Gwahoddiad

Edrychwn ymlaen at dyfu'r gwasanaeth hwn er mwyn cyrraedd mwy o bobl, gyda'r bwriad o ddod â bendithion Duw i galonnau teuluoedd ein cymuned. Am fwy o wybodaeth am Tots a Thonau Tylwyth Teg, cysylltwch â ni drwy'r eglwys! Croeso cynnes i bawb, boed yn fabanod neu'n rhieni i fod yn rhan o'n hymdaith o ddiwrnodau llawen.

**Rhys Locke**



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Capeli hen a newydd Llanybri





**Credir bod adeilad yr hen eglwys Anglicanaidd ym mhentref Llanybri, sydd ar benrhyn uwchlaw bae Caerfyrddin, yn unigryw oherwydd iddo gael ei droi'n gapel Annibynnol.** Mae cyfeiriad at eglwys 'Morabri' yn 1292, ond erbyn yr 17eg ganrif roedd yn segur, ac yn 1790 cafodd ei lesio gan yr achos Annibynnol lleol. Yn dilyn tân yn 1974, bu'n rhaid dymchwel rhan helaeth o'r adeilad, ond mae'r rhan isaf o'r tŵr a muriau eraill yn dal i sefyll fel adfail sydd wedi'i gofrestru gan Cadw.



### Hanes yn y Cwrdd Chwarter

Ymhell cyn yn hynny, ym 1813, fe godwyd y Capel Newydd ar ddarn o dir ergyd carreg o'r hen un, ac yno yng nghwrdd chwarter Gorllewin Caerfyrddin ar 8 Mai y cafwyd crynodeb o hanes yr achos ddoe a heddiw gan Wendy Evans (yn y llun). Nid oes gweinidog wedi bod yn Llanybri ers 1981, ond llwyddwyd i gynnal yr achos drwy ffydd ac ymroddiad yr aelodau. Ceisiwyd cael gweinidog bro yn 2002 ond ni chafwyd ymateb. Cafodd y gaeafau gwlyb a stormus yn ddiweddar effaith andwyol ar yr adeilad, sydd ar dir eithaf uchel ac agored. Bu'n rhaid cau'r capel am tua naw mis, er mwyn ei adnewyddu y tu a fewn a thu allan, tra bod oedfaon yn cael eu cynnal yn y festri. Ychydig cyn y cwrdd chwarter, cafwyd oedfa gofiadwy i ailagor y capel. Mae rhai o deulu y bardd Dylan Thomas yn gorwedd yn y fynwent, ac yn 2019 canfuwyd trowel aur o 1873 a gyflwynwyd i'r person a osododd garreg sylfaen y capel presennol.

### Cynnal yr achos



Mae gan yr eglwys heddiw 40 o aelodau. Er yn hyblyg gydag amser oedfaon, pan nad yw'n bosib cael pregethwr ar y Sul, mae'r aelodau'n cynnal oedfaon eu hunain. Maen nhw hefyd yn cydaddoli gydag eglwysi eraill yn y cylch; yn cynnal oedfaon awyr agored; ac un tro cafwyd oedfa Gymun ar y traeth. Gan mai ychydig o siaradwyr Cymraeg sydd yn y pentref bellach, cynhelir ambell i oedfa ddwyieithog, ac adeg Gŵyl y Geni gwahoddir yr ysgol leol i gynnal ei hoedfa Nadolig ddwyieithog yn y capel. Cesglir at y banc bwyd a'r lloches i fenywod yng Nghaerfyrddin; codir arian at achosion da lleol, ymwelir â'r hen a'r bregus, ac o dro i dro trefnir cinio dydd Sul mewn bwyty

# ALED HUW YN DOD I'R SUL SBESIAL

Am 35 mlynedd bu'r newyddiadurwr Aled Huw yn wyneb a llais cyfarwydd ar y teledu a radio. Yn wreiddiol o Gaerfyrddin, mynychodd Ysgol y Dderwen a Bro Myrddin cyn mynd i Goleg Wadham, Rhydychen lle enillodd radd dosbarth cyntaf mewn Cemeg. Ar ôl ymuno â'r BBC bu'n gweithio am saith mlynedd yn Llundain fel gohebydd Prydeinig a Rhyngwladol, ac ers hynny fel gohebydd a chyflwynydd ar Newyddion S4C a Radio Cymru. Yn ystod ei yrfa fe wnaeth Aled ohebu ar nifer o brif straeon rhyngwladol – y newyn yn Goma yn y Congo, y rhyfel yn Kosovo, ymosodiadau terfysgol Paris, marwolaeth y Frenhines Elizabeth II ac angladd Ray Gravell, yn ogystal ag adrodd o du allan i'r Tŷ Gwyn yn Washington.



### Manylion y Sul Sbesial

Ar ôl gyrfa hir a llwyddiannus mae Aled newydd ymddeol. Yn un o 'blant y Priordy' mae Aled wedi cytuno i fod yn ŵr gwadd yn Sul Sbesial Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin sydd i'r gynnal eleni yn neuadd Bronwydd gerllaw tref Caerfyrddin am 2 o'r gloch ar 13 Gorffennaf. Hefyd yn cymryd rhan bydd ysgol Sul Capel y Graig a Band y Priordy, gydag athrawon a rheini Hermon yn gofalu am weithgarwch y plant, ac aelodau Peniel yn gofalu am y te. Mae croeso cynnes i bawb i ddod i'r achlysur blynyddol poblogaidd yma, gafodd ei gynnal gyntaf yn Sanclêr yn 2007. (*Llun: S4C*)